# Twyll-len Cryptograffeg

## Seiffr Bacon

Dewiswch eich neges gudd.
Dewiswch ddwy ffont a'u labelu A a B.
Ysgrifennwch neges ddiflas gyda 5 gwaith cymaint o lythrennau â'r neges gudd.
Amgodiwch eich neges gudd gan ddilyn y tabl isod trwy newid ffontiau eich neges ddiflas o A i B yn dilyn sut mae'r neges gudd wedi'i amgodio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| a: AAAAA | h: AABBB | o: ABBBA | v: BABAB |
| b: AAAAB | i: ABAAA | p: ABBBB | w: BABBA |
| c: AAABA | j: ABAAB | q: BAAAA | x: BABBB |
| d: AAABB | k: ABABA | r: BAAAB | y: BBAAA |
| e: AABAA | l: ABABB | s: BAABA | z: BBAAB |
| f: AABAB | m: ABBAA | t: BAABB | |
| g: AABBA | n: ABBAB | u: BABAA | |

Neges gudd: Hoffi Bacon
Neges arferol: Es i i'r ysgol heddiw, roedd hi'n bwrw glaw ac yn wlyb iawn, ych a fi!
Math Ffont A: PRIFLYTHRENNAU
Math Ffont B: llythrennau bach

Neges gudd wedi'i hamgáu (enciphered):


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| H | O | F | F | I | B | A |
| AABBB | ABBBA | AABAB | AABAB | ABAAA | AAAAB | AAAAA |
| C | O | N | | | | |
| AAABA | ABBBA | ABBAB | | | | |

Neges gudd y tu mewn i neges arferol:
ES i i'r YsgoL HEdDiW, RoEdD hI'N BWRW GlAW AC YN WLyB Iawn YCh a Fi!

# Twyll-len Cryptograffeg

## Seiffr Pig Pen

Ysgrifennwch eich neges.
I amgryptio'r neges, anmewidiwch y symbol cyfatebol am pob llythyren
Y neges a anfonwyd yw'r casgliad o symbolau.
I ddadgryptio'r neges, anmewidiwch y symbolau gyda'r llythyren gyfatebol.




## Enghraifft o Seiffr Pig Pen

Neges plaintext: Mae Cryptograffeg yn bwnc diddorol i astudio

Neges ciphertext:



technocamps

# Twyll-len Cryptograffeg

## Seiffr Shifft ac Enghraifft

Ysgrifennwch eich neges.
Dewiswch allwedd rhwng 0-25.
I amgryptio'ch neges, symudwch bob llythyren yn y neges ymlaen nifer yr allwedd o leoedd yn yr wyddor.
I ddadgryptio'r neges ciphertext, symudwch bob llythyren yn ôl nifer yr allwedd o leoedd yn yr wyddor.

Enghraifft:
Seiffr Caesar - Allwedd = 3

Neges Plaintext: Llyfr gwych ar cryptograffeg yw'r Llyfr Cod gan Simon Singh

Neges Ciphertext: Oobiu jzbfk du fubswrjudiihj bz'u Oobiu Frg jdq Vlprq Vlqjk

Allwedd = 16

Neges Plaintext: Mae cryptograffeg yn cael ei ddefnyddio drwy'r amser

Neges Ciphertext: Cqu shofjewhqvvuw od squb uy ttuvdottye thmo'h qciuh

# Twyll-len Cryptograffeg

## Seiffr Rail Fence ac Enghraifft

Dewiswch eich nifer o reiliau.
I amgryptio'ch neges, lluniwch grid ar gyfer y reiliau ac ysgrifennwch eich neges mewn patrwm igam-ogam ar hyd y reiliau.
Darllenwch y neges ciphertext ar hyd y reiliau, llinell wrth linell.
I ddadgryptio'r neges, crëwch grid gyda'r nifer cywir o reiliau a lleoedd ar gyfer y neges. Ysgrifennwch y neges ciphertext ar hyd y reiliau.

Nifer o reiliau: 5
Neges Plaintext: Gobeithio mwynhewch ein sesiwn
Neges Ciphertext: GOCIOIMWHSWBHWEEENETYHISINN
Dadgryptio: hyd y neges = 25, reiliau = 5
Yna ysgrifennwch y ciphertext ar hyd y reiliau, llinell wrth linell.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | | | | | | | | O | | | | | | | | C | | | | | | | | I | | |
| | O | | | | | | I | | M | | | | | | W | | H | | | | | | S | | W | |
| | | B | | | | H | | | | W | | | | E | | | | E | | | | E | | | | N |
| | | | E | | T | | | | | | Y | | H | | | | | | I | | S | | | | | |
| | | | | I | | | | | | | | N | | | | | | | | I | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | | | | | | | | O | | | | | | | | C | | | | | | | | I | | |
| | O | | | | | | I | | M | | | | | | W | | H | | | | | | S | | W | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Twyll-len Cryptograffeg

## Geiriau Allweddol

**Steganograffeg**
**Cod**
**Amgryptio**
**Amnewid**
**Plaintext**
**Cryptograffeg**
**Seiffr**
**Dadgryptio**
**Trawsosod**
**Ciphertext**

**Steganograffeg -** Yr arfer o guddio negeseuon neu wybodaeth mewn testun neu ddata nad yw'n gyfrinachol arall.

**Cryptograffeg -** Yw ymarfer ac astudio technegau ar gyfer cyfathrebu diogel.

**Cod -** Dull amgryptio lle mae geiriau neu ymadroddion cyfan yn y neges yn cael eu trosi'n rhywbeth arall.

**Seiffr -** Dull amgryptio sy'n newid neges ar lythyr fesul llythyr.

**Amgryptio -** Y broses o drosi gwybodaeth neu ddata i atal mynediad heb awdurdod.

**Dadgryptio -** Trosi data wedi'i amgryptio i'w ffurf wreiddiol.

**Amnewid -** Dull amgryptio lle mae llythrennau unigol yn cael eu rhoi yn lle llythrennau neu symbolau eraill.

**Trawsosod -** Dull amgryptio lle mae trefn y llythrennau yn y neges yn cael ei newid.

**Plaintext -** Y neges / testun gwreiddiol.

**Ciphertext -** Y neges / testun wedi'i amgryptio.